



# Cyngor Gwynedd

## Cyflwyniad i Strategaeth Ddrafft ar gyfer Rheoli Gwastraff Trefol

### 1. CEFNDIR

- 1.1 Mae'r Cynulliad yn disgwyl i bob awdurdod unedol yng Nghymru i gynhyrchu Strategaeth Rheoli Gwastraff Trefol i ddangos sut y mae am ymdrin a gwastraff bwrdeistrefol yn gynladwy yn y dyfodol. Mae angen i'r Strategaeth ddangos sut mae'r Cyngor am gyfarfod targedau ailgylchu a chompostio ac ati sydd yn y Strategaeth Gwastraff Genedlaethol i Gymru – "Yn Gall Gyda Gwastraff."

### 2. TARGEDAU AILGYLCHU A CHOMPOSTIO

- 2.1 Bydd angen cyfarfod y targedau canlynol gyda gwastraff bwrdeistrefol yn y blynyddoedd i ddod :-
- Erbyn 2006/07 cyrraedd o leiaf 25% o ailgylchu/compostio gyda isafswm o 10% o gompostio a 10% o ailgylchu.
  - Erbyn 2009/10 cyrraedd o leiaf 40% o ailgylchu/compostio gyda isafswm o 15% o gompostio a 15% o ailgylchu.
  - Erbyn 2010, cwtogi ar Wastraff Trefol Pydradwy sy'n cael ei gladdu i 75% (yn ôl y pwysau) o'r hyn a gynhyrchwyd ym 1995.
  - Erbyn 2013, cwtogi ar Wastraff Trefol Pydradwy sy'n cael ei gladdu i 50% (yn ôl y pwysau) o'r hyn a gynhyrchwyd ym 1995.
  - Erbyn 2020, cwtogi ar Wastraff Trefol Pydradwy sy'n cael ei gladdu i 35% (yn ôl y pwysau) o'r hyn a gynhyrchwyd ym 1995.
- 2.2. Dim ond compost sy'n deillio o ddeunyddiau wedi eu gwahanu yn y ffynhonnell sydd yn cyfrif at y targed compostio. Cyrhaeddwyd y targedau ailgylchu a chompostio ar gyfer 2003/04.

### 3. TARGEDAU YN NHERMAU PWYSAU

- 3.1 Dyma'r targedau i Gwynedd yn nhermau tunelli, yn hytrach na chanrannau :-
- Compostio ac ailgylchu o leiaf 11,850 tunnell yn 2003/04 (gwir ffigur oedd 12,680 tunnell)
  - Compostio ac ailgylchu o leiaf 22,100 tunnell yn 2006/07
  - Compostio ac ailgylchu o leiaf 38,750 tunnell yn 2009/10

### 4. YR HIERARCHAETH GWASTRAFF

- 4.1 Mae'r Strategaeth Gwastraff Genedlaethol wedi sefydlu yr hierarchaeth ganlynol ar gyfer ymdrin a gwastraff trefol :-
- Atal cynhyrchu gwastraff
  - Cwtogi ar y gwastraff gynhyrchir

- Ail-ddefnyddio
- Adfer deunyddiau
- Adfer egni
- Gwaredu

4.2 Mae'r strategaeth gwastraff ddrafft yn gyffredinol yn dilyn yr hierarchaeth gwastraff, heblaw am efallai gyda adfer ynni. Buasai angen adnodd rhanbarthol ar gyfer adfer ynni, a chan nad oes gwybodaeth gadarn am gynllun o'r fath, nid yw hynny wedi ei gynnwys fel rhan o'r strategaeth ddrafft.

## 5. CYRRAEDD TARGEDAU

5.1 Mae'r targedau gyfeirir atynt ym Mhwynt 2.1 yn cyfeirio yn sylfaenol at wella perfformiad mewn tri maes, sef:-

- (i) ailgylchu gwastraff
- (ii) compostio gwastraff
- (iii) lleihau ar y gwastraff trefol pydradwy gaiff ei dirlenwi

Eglurir yn gryno isod sut mae'r Strategaeth Drafft yn rhagweld y bydd targedau yn y tri maes yn cael eu cyfarfod.

5.2 Gellir ailgylchu papur, carbord, plastig, gwydr, caniau, a thecstilau o wastraff domestig. Mae'r Cyngor eisoes gyda threfniadau mewn lle i ailgylchu papur, gwydr, tecstilau a chaniau, felly i wella perfformiad yn y maes ailgylchu mae'r Strategaeth yn argymhell:-

- (i) codi ymwybyddiaeth o'r angen i ailgylchu
- (ii) ymestyn y gwasanaeth casglu ochr y ffordd i fwy o gartrefi
- (iii) darparu mwy o fanciau ailgylchu mewn ardaloedd gwledig lle na ellir yn hawdd roddi gwasanaeth casglu ochr y ffordd
- (iv) sefydlu rhwydwaith o ganolfannau ailgylchu gwastraff domestig (neu safleoedd mwynderau dinesig) gan fod profiad yn dangos y gellir ailgylchu dros 60% o'r gwastraff dderbynnir mewn canolfannau o'r fath. Bydd angen y canolfannau hefyd ar gyfer cyfarfod a gofynion newydd gyda gwastraff peryglus a gwastraff trydanol
- (v) ymestyn y gwasanaeth casglu ochr y ffordd i gynnwys casglu carbord a photeli plastig
- (vi) datblygu dwy ganolfan ailgylchu deunyddiau i drin yn arbennig gyda carbord a phlastig, ond hefyd i gasglu deunyddiau eraill at eu gilydd i'w cludo i fasnachwyr ailgylchu

5.3 Mae'r Strategaeth Ddrafft yn cymeryd i ystyriaeth mai ond compost wedi ei gynhyrchu o ddeunyddiau wedi eu gwahanu yn y ffynhonnell all gyfrif tuag at y targedau compostio. Mae'r Strategaeth Ddrafft felly yn rhagweld cyrraedd y targedau compostio drwy:-

- (i) ymestyn y gwasanaeth arbrolfol o gasglu gwastraff gardd yn rhannau o Ddwyfor i weddill Gwynedd
- (ii) compostio y gwastraff gwyrdd dderbynnir yn y canolfannau ailgylchu gwastraff domestig
- (iii) datblygu cyfleusterau compostio "mewn llestr" ar ddwy safle

- (iv) wedi sefydlu'r cyfleusterau compostio "mewn llestr" ychwanegu casglu gwastraff cegin at y gwasanaeth casglu gwastraff gardd

5.4 Rhaid bod yn ymarferol a derbyn na fydd pawb yn gwneud defnydd llawn o wasanaethau ailgylchu. Mae'r Strategaeth Drafft yn cydnabod y bydd rhywfaint o bapurau, gwastraff cegin a gardd, tecstilau ac ati yn parhau i fod yn y gwastraff gweddilliol, ac y bydd angen modd i ddelio gyda hynny er cyfarfod a thargedau o 2010 ymlaen i leihau ar y gwastraff trefol pydradwy yrrir i'w dirlenwi. Mae'r Strategaeth Ddrafft yn argymhell delio a hynny drwy gompostio y gwastraff mân gynhyrchir drwy y broses pwlfyreiddio gan offer sydd eisoes mewn lle ar safleoedd gwaredu gwastraff yn Harlech a Llwyn Isaf, Clynnog.

5.5 Mae'r Strategaeth Ddrafft yn cyfeirio at elfennau cysylltiedig o waith, ond mae pwyntiau 5.2, 5.3 a 5.4 uchod yn nodi y prif bwyntiau.

## 6. BLAENORIAETHAU

6.1 Mae'r blaenoriaethau o ran rhaglen waith i gyfarfod y targedau yn cael eu dangos isod. Gall y sefyllfa gyda safle tirlenwi Cilgwyn arwain at addasu ychydig ar y blaenoriaethau.

a) **Tymor byr – 2004/05 i 2006/07**

- gosod banciau ailgylchu ychwanegol
- ymestyn y gwasanaeth ailgylchu ochr y ffordd
- ymestyn y gwasanaeth casglu gwastraff gwyrdd
- dechrau ar y gwaith o sefydlu rhwydwaith o ganolfannau ailgylchu gwastraff tŷ
- sefydlu Canolfan Ailgylchu Deunyddiau

b) **Tymor Canolig – 2007/8 i 2008/9**

- cwblhau gwaith o osod banciau ailgylchu ychwanegol
- cwblhau y gwaith o sefydlu rhwydwaith o ganolfannau ailgylchu gwastraff tŷ
- sefydlu dwy safle compostio "mewn llestr"
- ymestyn y gwasanaeth casglu gwastraff gwyrdd i gynnwys gwastraff cegin
- sefydlu ail Ganolfan Ailgylchu Deunyddiau
- ymestyn y gwasanaeth ailgylchu ochr y ffordd i gynnwys plastig a charbod
- sefydlu trefniadau i ymdrin a gwastraff gweddilliol ar un safle

c) **Tymor Hwyr – 2009/10 ymlaen**

- Sefydlu trefniadau i ymdrin a gwastraff gweddilliol ar ail safle

6.2. Mae'n amlwg y bydd costau sylweddol gyda datblygu'r cyfleusterau ddangosir uchod. Bydd angen lefel addas o gefnogaeth ariannol oddi wrth y Cynulliad, a rhaid hefyd edrych am grantiau i gynorthwyo gyda'r costau.

## 7. PWYNT CYSWLLT

7.1 Os bydd gennych eisiau mwy o wybodaeth, gellir cysylltu â Peter Evans ar y rhif ffon 01286 679404 neu drwy e-bost i [petereifionevans@gwynedd.gov.uk](mailto:petereifionevans@gwynedd.gov.uk)